

**CANLLAWIAU LLYWODRAETH CYMRU  
AR GYFER IS-DDEDDFAU MODEL (CYMRU) AR ACIWBIGO, TATŴIO,  
LLIWIO CROEN YN LLED BARHAOL, TYLLU COSMETIG AC  
ELECTROLYSIS**

### **Cyflwyniad**

1. Mae is-ddeddf yn ddeddf leol a wneir gan gorff statudol, awdurdod lleol er enghraifft, o dan bŵer galluogi mewn Deddf Seneddol. Gan fod is-ddeddfau'n creu troseddau, ni allant ddod i rym os na chânt eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru.
2. Mae'r canllawiau isod yn rhoi trosolwg o'r broses ar gyfer gwneud is-ddeddfau ar aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis o dan adrannau 14 ac 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ('Deddf 1982').

### **Y pŵer galluogi**

3. Mae'r pwerau sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau ar aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis i'w gweld yn Rhan VIII o Ddeddf 1982. Fodd bynnag, cyn y gellir dibynnu arnynt, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn sicr bod darpariaethau Rhan VIII yn berthnasol yn eu hardal nhw. Nodir y weithdrefn ar gyfer gwneud hynny yn adran 13 o Ddeddf 1982.

### **Ymgynghori**

4. Mae ymgynghori'n rhan allweddol o'r broses a gall wneud y gwahaniaeth rhwng cyfnod cyflwyno llyfn a chyfnod cyflwyno hir ac anodd. Gellir defnyddio'r broses i benderfynu, i ddechrau, a yw is-ddeddf yn addas ac, wedyn, i sicrhau y gellir cynnal ymgynghoriad priodol gyda'r rhai y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio arnynt.

### **Yr Is-ddeddfau Model**

5. Mae is-ddeddfau model ar gyfer aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Datblygwyd yr is-ddeddfau model hyn er mwyn diogelu iechyd yn well a lleihau perygl trosglwyddo heintiau a achosir gan firysau a gludir yn y gwaed, fel HIV, hepatitis B a hepatitis C a heintiau eraill. Argymhellir bod awdurdodau lleol yn dilyn y model hwn os ydynt yn berthnasol i amgylchiadau neilltuol yr awdurdod. Bydd hyn yn ei gwneud yn llai tebygol y ceir problemau drafftio neu oedi yn y broses gadarnhau. Fodd bynnag, ni ddylid mabwysiadu'r is-ddeddfau en bloc a bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a yw pob is-ddeddf, yn ei thro, yn addas ar gyfer sefyllfa benodol yr ardal.

### Defnyddio'r model

6. Mae'r geiriau sydd mewn ffont italig yn yr is-ddeddfau model yn rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i fabwysiadu'r is-ddeddf fodel (e.e. *“rhowch enw'r Cyngor”* neu *“nodwch y pwnc”*). Defnyddir bachau petryal lle gall fod yn briodol defnyddio geiriau ychwanegol mewn rhai achosion (e.e. “pwerau o dan adran [14/15]...” neu yn fersiwn Gymraeg yr Is-ddeddfau Enghreifftiol i gynnig amrywiadau rhanbarthol i'r awdurdodau lleol (e.e. “*rasel [raser]*”).

### Dirymu

7. Mae testun is-ddeddf fodel 12, y gellir ei defnyddio i ddirymu is-ddeddfau, yn cynnwys nifer o gyfarwyddiadau y gall fod angen manylu arnynt:

*“rhowch yr enw”* – enw'r Cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau, hyd yn oed os nad y Cyngor hwnnw yw awdurdod lleol yr ardal honno bellach neu os yw wedi dod i ben.

*“rhowch enw'r awdurdod sy'n cadarnhau”* – e.e. yr Ysgrifennydd Gwladol.

*“rhowch y dyddiad y cafodd yr is-ddeddfau eu cadarnhau”* – mae hwn yn wahanol i'r dyddiad pryd y daeth yr is-ddeddfau i rym.

### **Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfau ac ar gyfer gwneud cais i gadarnhau'r is-ddeddfau**

8. Nodir y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfau yn adran 236 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oes bwriad i'r canllawiau hyn gymryd lle'r angen i gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol ac i gydymffurfio â hi.
9. Ni ddaw is-ddeddfau i rym hyd nes iddynt gael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru (neu uwch swyddog o Lywodraeth Cymru'n gweithredu ar eu rhan). Bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio'r is-ddeddfau i sicrhau bod y model wedi'i ddilyn, bod yr is-ddeddfau'n dod oddi fewn i'r pwerau cyfreithiol a bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn.
10. Dyma'r weithdrefn sydd i'w dilyn cyn cael cadarnhad oddi wrth Weinidogion Cymru:
  - (a) Rydym yn argymhell bod yr awdurdod yn cyflwyno'i is-ddeddfau drafft i Lywodraeth Cymru i gael cymeradwyaeth dros dro. Dylid cyflwyno datganiad gyda'r is-ddeddfau drafft naill ai'n cadarnhau eu bod yn cyfateb yn union i'r model neu'n rhoi manylion sut y maent yn gwahaniaethu, gyda rhesymau. Er mwyn cywiro gwallau mewn is-ddeddfau sydd wedi'u gwneud, eu selio a'u hysbysebu, mae'n rhaid mynd trwy'r broses hon eto ar gyfer yr is-ddeddfau diwygiedig.

- (b) Rhaid i'r is-ddeddfau gael eu gwneud gan yr awdurdod lleol o dan ei sêl gyffredin. Fodd bynnag, ni ddônt i rym hyd nes i Weinidogion Cymru eu cadarnhau.
- (c) O leiaf fis cyn cyflwyno'r cais am gadarnhad i Weinidogion Cymru, rhaid rhoi hysbysiad o fwriad yr awdurdod i wneud cais am gadarnhad mewn un neu fwy o bapurau newydd lleol sydd â chylchrediad yn yr ardal y bydd yr is-ddeddfau mewn grym ynddi. Bydd yr hysbysiad hwn yn dweud wrth y cyhoedd am y bwriad i wneud is-ddeddfau, a sut i'w harchwilio, sut i gael copïau a sut i wneud gwrthwynebiadau. Awgrymir ffurf ar gyfer yr hysbysiad ar is-ddeddfau aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis yn Atodiad A o'r canllawiau hyn. Cyfrifoldeb yr awdurdod yw sicrhau bod yr is-ddeddfau dan sêl wedi'u hysbysebu iawn.
- (d) Am o leiaf fis cyn cyflwyno'r cais i Weinidogion Cymru gadarnhau'r is-ddeddfau, mae'n rhaid cadw copi o'r is-ddeddfau ar adnau yn swyddfeydd yr awdurdod lleol, fel y gall y cyhoedd eu harchwilio, yn ddi-dâl, ar bob adeg resymol.
- (e) Pan fydd rhywun yn gwneud cais, mae'n rhaid i'r awdurdod roi copi o'r is-ddeddfau (neu unrhyw ran ohonynt) iddo/iddi am ffi a bennir gan yr awdurdod. Rhaid i'r ffi honno beidio â bod yn fwy na 10 ceiniog am bob 100 gair sydd yn y copi.
- (f) Pan fydd y cyfnod adneuo wedi dod i ben, caiff yr awdurdod wneud cais am gadarnhad. Dylid argraffu cadarnhad Gweinidogion Cymru o dan sêl yr awdurdod lleol a dylid gadael lle o 10 centimetr o leiaf ar gyfer y llofnod swyddogol. Nid yw'r Nodiadau yn rhan o'r is-ddeddfau ond dylid eu hargraffu ar ôl sêl yr awdurdod lleol a chadarnhad Llywodraeth Cymru.
- (g) Byddai'n fuddiol cyflwyno'r pethau isod gyda'r cais am gadarnhad.
- copi o benderfyniad yr awdurdod lleol bod darpariaethau Rhan VIII o Ddeddf 1982 yn berthnasol i ardal yr awdurdod lleol (yn cynnwys tystiolaeth o gydymffurfio â gofynion adran 13 o'r Ddeddf);
  - copi o benderfyniad yr awdurdod lleol o blaid mabwysiadu'r is-ddeddfau;
  - yr is-ddeddfau o dan sêl (dwy set);
  - copïau o'r papur(au) newydd yn cynnwys yr hysbysiad o'r bwriad i wneud cais i gadarnhau'r is-ddeddfau;
  - tystysgrif y cleric yn nodi dyddiad adneuo'r copi o'r is-ddeddfau ac am ba hyd yr adneuwyd ef;
  - datganiad yn dweud a gafodd yr awdurdod lleol unrhyw wrthwynebiadau i'r is-ddeddfau ai peidio;

- cadarnhad, lle bo'n berthnasol, bod yr is-ddeddfau yn cyfateb yn union i'r is-ddeddfau model a/neu'r drafft a gyflwynwyd yn flaenorol.
8. Unwaith y bydd yr is-ddeddfau dan sêl wedi dod i law Llywodraeth Cymru, ar yr amod bod y weithdrefn a nodir yn adran 236 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wedi'i dilyn yn briodol ac ar yr amod na chafwyd gwrthwynebiadau, fel rheol bydd Gweinidogion Cymru yn eu cadarnhau a chânt eu dychwelyd i'r awdurdod lleol. Os cafwyd gwrthwynebiadau, rhoddir cyfle i'r awdurdod lleol gynnig sylwadau cyn y gwneir penderfyniad.
  9. Pan gaiff yr is-ddeddfau eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru, bydd y Gweinidogion yn penderfynu ar ba ddyddiad y daw'r is-ddeddfau i rym. Fel rheol, bydd hyn yn digwydd fis ar ôl y dyddiad cadarnhau os nad oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu bod angen iddynt ddod i rym yn gynt.
  10. Unwaith y bydd yr is-ddeddfau wedi'u cadarnhau, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol argraffu copiâu ohonynt a'u rhoi yn swyddfeydd yr awdurdod lleol ac mae'n rhaid eu bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, yn ddi-dâl, ar bob adeg resymol. Os gofynnir amdanynt, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu copiâu o'r is-ddeddfau am ffi a bennir gan yr awdurdod lleol (ond heb fod dros 20 ceiniog y copi).
  11. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi o'r is-ddeddfau wedi'u cadarnhau at swyddog priodol pob cyngor cymuned lle bydd yr is-ddeddfau mewn grym. Yna, mae'n rhaid i swyddog priodol y cyngor cymuned roi copi gyda dogfennau cyhoeddus y cyngor cymuned hwnnw.

### **Rhagor o wybodaeth / cysylltwyr**

12. Dylid cyfeirio'r is-ddeddfau drafft neu'r is-ddeddfau dan sêl ac unrhyw ymholiadau at:

Yr Is-adran Diogelu Iechyd,  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
02920 826191 [Health.Protection@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Health.Protection@Wales.gsi.gov.uk)

[Nodwch enw'r Cyngor lleol]  
CADARNHAU IS-DDEDDFAU

Hysbysir trwy hyn ei bod yn fwriad gan ..... , ar ôl i'r cyfnod a nodir isod ddod i ben, wneud cais i Weinidogion Cymru i gadarnhau is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor **[rhowch ddisgrifiad o'r is-ddeddfau yma a nodi eu bod wedi'u gwneud o dan adran 14/15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982].**

Cedwir copiâu o'r is-ddeddfau yn swyddfeydd yr cyngor lleol yn ..... a byddant ar gael i'w harchwilio, yn ddi-dâl, ar ddyddiau gwaith yn ystod oriau swyddfa arferol am un mis calendr o'r dyddiad y caiff yr hysbysiad hwn ei gyhoeddi [gyntaf]. Yn ogystal, darperir copiâu o'r is-ddeddfau os gofynnir amdanynt gyda ffi o ..... am bob copi.

Gellir gwrthwynebu'r cais i gadarnhau'r is-ddeddfau trwy lythyr (dim mwy nag wythnos ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer eu harchwilio) wedi'i gyfeirio at:  
Is-ddeddfau aciwbigo, tatwio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis  
Yr Is-adran Diogelu Iechyd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

(Llofnod) ..... Prif Weithredwr  
(Dyddiad) .....